**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 21 Medi 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | R V Smith | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A Pugh

---

## 33. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 38 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorwyr L S Gibbard, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol â Chofnod 42 "Trefniant Pensiwn Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) cost a rennir ar gyfer aelodau'r CPLIL".

3) Datganodd B Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 42 "Trefniant Pensiwn Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) cost a rennir ar gyfer aelodau'r CPLIL" a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 34. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023.

**35. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**36. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**37. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**38. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Gwyrosydd | Y Parchedig Ben Smith |
| Ysgol Gynradd Parkland | Mrs Lydia Fasham |
| Ysgol Gynradd Pontybrenin | Mr Lloyd Selby |
| Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Mrs Sybil Smith |

**39. Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1 2023/24.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn amlinellu'r Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2023/24.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi perfformiad y cyngor wrth gyflawni amcanion lles y cyngor yn chwarter 1/2023.

2) Cymeradwyo defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywirol i

reoli a gwella perfformiad ac effeithlonrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 40. Alldro ac Chyllido Cyfalaf 2022/23.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnwys manylion alldro cyfalaf a'r arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cario tanwariant net y gyllideb gyfalaf gynyddol gwerth £28.8m ymlaen i 2023/2024.

## 41. Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella 2023/24 - trosglwyddo'r gyllideb.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn manylu ar y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'r Grant Gwella yn 2023/24 a gofynnodd am gymeradwyaeth i ddychwelyd cyllid nas defnyddiwyd o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) a chyllidebau benthyciadau *Homefix* i'r Ganolfan Gorfforaethol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo trosglwyddo £460,519 o gyllideb GCA a £712,556 o gyllideb benthyciadau *Homefix* i'r Ganolfan Gorfforaethol.

## 42. Trefniant pensiwn Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) cost a rennir ar gyfer aelodau'r CPLlL.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno trefniant pensiwn CGY cost a rennir i aelodau'r CPLlL.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo cyflwyno trefniant pensiwn CGY cost a rennir i aelodau'r CPLlL.

2) Cymeradwyo taliadau sy'n ymwneud ag enillion fel goramser, codiadau cyflog, lwfansau cytundebol, cyflog mamolaeth galwedigaethol, cyflog salwch galwedigaethol a cholli swydd yn cael eu cyfrifo ar y cyflog tybiannol cyn ychwanegu'r gostyngiad aberthu cyflog.

3) Cymeradwyo cynnwys disgresiwn newydd ym Mholisi Dewisol Pensiwn Cyflogwyr CPLlL y cyngor i ganiatáu i aelodau'r CPLlL gymryd rhan mewn cynllun CGY cost a rennir.

4) Cymeradwyo partneru â darparwr allanol i ddarparu gwasanaeth a reolir yn llawn sy'n cynnwys CGY cost a rennir.

## 43. Cynlluniau ar gyfer Ysgolion Arbennig Abertawe yn y dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar uno Ysgol Pen-y-Bryn ac Ysgol Crug Glas yn un ysgol arbennig ym mis Medi 2025 ac adleoli i ysgol bwrpasol newydd gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo i ymgynghori ar uno Ysgol Pen-y-Bryn ac Ysgol Crug Glas yn un ysgol arbennig ym mis Medi 2025 ac adleoli i ysgol bwrpasol newydd gan gynyddu nifer y lleoedd o fis Ebrill 2028.

2) Y dylai'r Cabinet ystyried yr ymatebion yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 44. Addysg o Safon (AoS)/Y Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar Gyfer Dysgu - Band B.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad diweddaru ar gynnydd Band B Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau cynaliadwy ar gyfer Dysgu, y pwysau chwyddiant ac ariannol sy'n effeithio ar weddill y rhaglen a chymeradwyo cynnydd i amlen y rhaglen.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi gweddill y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer Band B y Rhaglen AoS/Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

2) Cynyddu'r cyfraniad cyllid lleol £9 miliwn i £46.7 miliwn, yn seiliedig ar gyfraniad cyfalaf yn unig.

3) Bod naill ai cais am newid yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ceisio cynnydd yn amlen rhaglen Band B i £176 miliwn neu, yn dibynnu ar amseriad a dilyniant achosion busnes, bydd hyn yn rhan o gyflwyniad diwygiedig y Rhaglen Amlinellol Strategol.

## 45. Cronfa Pontio Bysiau Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth, yn ôl-weithredol, i'r cyngor ymrwymo i gytundebau Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau Llywodraeth Cymru ac ymrwymo i gytundebau gyda gweithredwyr bysus niferus yn y rhanbarth.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cefnogi a chymeradwyo penderfyniad Arweinydd y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2023 yn awdurdodi'r cyngor i ymrwymo i gytundebau Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau Llywodraeth Cymru.

2) Mae'r cyngor, fel awdurdod arweiniol rhanbarthol, wedi ymrwymo i gytundebau Cronfa Bontio ar gyfer Bysiau gyda gweithredwyr bysus perthnasol, i sicrhau cymorth ariannol (amodol) i'r sector bysus ac i sefydlu perthynas â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol sy'n sicrhau bod y cyllid parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdodau hynny ac yn cyflawni ar eu rhan.

**46. Bwriad i werthu rhydd-ddaliad neu ailstrwythuro prydles 254-260 Stryd Rhydychen er mwyn hwyluso adnewyddu unedau masnachol llawr gwaelod ac ailbwrpasu'r llety ar y lloriau uchaf yn unedau preswyl.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn darparu nifer o opsiynau ar gyfer y perchennog tir i'r Cabinet ynghylch 254 - 260 Stryd Rhydychen er mwyn hwyluso ailddatblygu'r bloc, gan gynnwys adnewyddu unedau masnachol llawr gwaelod ac ailbwrpasu'r llety ar y lloriau uchaf yn unedau preswyl.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bod y Cyngor yn wyro oddi wrth y polisi cyfredol o gadw buddiannau rhydd-ddaliadol yng nghanol y ddinas a chymeradwyo gwaredu'r buddiannau rhydd-ddaliadol.

2) Rhoi awdurdod i'r Swyddog Adran 151 i wneud diwygiad priodol i'r gyllideb refeniw i wrthbwyso'r golled mewn incwm blynyddol gyda'r pwysau hwn yn cael ei adlewyrchu fel rhan o broses y gyllideb yn 2024/25.

3) Gofyn am baratoi adroddiad pellach i'r Cabinet ei ystyried ar y polisi o gadw/gwaredu rhydd-ddaliadau yng nghanol y ddinas.

4) Cadarnhau na fydd unrhyw rydd-ddaliadau a waredwyd pellach yn cael eu hystyried hyd nes y cyflwynir yr adolygiad polisi yn unol ag argymhelliad 5 ochr yn ochr ag adroddiad yn y dyfodol ar adolygiad o Strategaeth Canol y Ddinas.

**47. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**48. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**49. Bwriad i werthu rhydd-ddaliad neu ailstrwythuro prydles 254-260 Stryd Rhydychen er mwyn hwyluso adnewyddu unedau masnachol llawr gwaelod ac ailbwrpasu'r llety ar y lloriau uchaf yn unedau preswyl.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad 'er gwybodaeth' ar y cyd a oedd yn darparu nifer o opsiynau ar gyfer y perchennog tir i'r Cabinet ynghylch 254 - 260 Stryd Rhydychen er mwyn hwyluso ailddatblygu'r bloc, gan gynnwys adnewyddu unedau masnachol llawr gwaelod ac ailbwrpasu'r llety ar y lloriau uchaf yn unedau preswyl.

**50. Gwaredu Tir yng Ngham 1 Abertawe Ganolog.**

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 21 Medi 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 26 Medi 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 27 Medi 2023 |